O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 333 (Cy. 37)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, Gwynedd i Gyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*14 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*15 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]) a phob pŵer galluogi arall([2]), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, Gwynedd i Gyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.— Yn y Gorchymyn hwn:

1 () 1984 p.24. Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) adran 1(1) ac Atodlen 1.

2 () Yn rhinwedd O.S. 1996/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 01:00 o'r gloch ar 15 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlenni 1 i 11 i'r Gorchymyn hwn.

(1) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar naill ai'r gerbytffordd tua'r dwyrain neu'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn a Chyffordd 17, Cyfnewidfa Morfa Conwy.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar naill ai'r gerbytffordd tua'r dwyrain neu'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5.— Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 18, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(b) goddiweddyd unrhyw gerbyd modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn; ac

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad, ac eithrio tua'r dwyrain, drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 18, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd

tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:-

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;

(b) goddiweddyd unrhyw gerbyd modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn; ac

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur gael ei yrru yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 87, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur gael ei yrru yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r adegau hynny pan fydd y gerbytffordd tua'r dwyrain neu'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 4 i'r Gorchymyn hwn.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

10. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18**,** ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

11. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18**,** ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 8 i'r Gorchymyn hwn.

12. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18**,** ni chaiff cerbydau, beicwyr pedal na cherddwyr, yn ystod cyfnod y gwaith, droi i'r dde i ymadael drwy'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 9 i'r Gorchymyn hwn.

Atal

13. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Rhan Pen-y-clip, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1994([1]) drwy hyn wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn Erthygl 4 yn weithredol.

14. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaenmawr – Morfa Conwy, Conwy) (Dileu Cyfyngiadau) 2004([2]) drwy hyn wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn Erthygl 4 yn weithredol.

15. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Llanfairfechan, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1989([3]) drwy hyn wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn Erthygl 4 yn weithredol.

16. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaenmawr, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1989([4]) drwy hyn wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn Erthygl 4 yn weithredol.

17. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Abergwyngregyn, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1994([5]) drwy hyn wedi eu hatal, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn Erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

18. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 ac 12 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

19. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

---

1 () O.S. 1994/790.
2 () O.S. 2004/2876.
3 () O.S. 1989/2158.
4 () O.S. 1989/1958.
5 () O.S. 1994/3087.